TIRLUN

# PAM MAE RHAI LLEOEDD YN ARBENNIG?

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau ymgysylltiol rydych yn eu cynnig. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd effeithiol o ddatblygu sgiliau cyfannol y dysgwyr (creadigrwydd ac arloesi, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch am ganolbwyntio ar pam mae dysgu'n bwysig a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybrau y gellid eu dilyn wrth fynd drwy'r gweithgaredd. Nid ydynt wedi'u bwriadu i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull gweithredu yn unol ag anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae'r dysgwyr yn archwilio eu syniadau ynghylch beth yw 'tirwedd' ac yn ystyried eu hoff le yn yr awyr agored a pham y gallent fod eisiau ei ddiogelu, gan ystyried rhag pwy y maent yn ei ddiogelu a sut y gallent wneud hynny. Maent yn darganfod gwybodaeth am dirweddau dynodedig yng Nghymru, gan eu lleoli ar fap a dod o hyd i'r un agosaf at eu hysgol.

Mae'r dysgwyr yn archwilio rhinweddau arbennig pob tirwedd ddynodedig yng Nghymru ac yn rhestru beth yw rhinweddau arbennig Parc Cenedlaethol yn Zimbabwe, yn eu barn nhw. Mae'r dysgwyr yn nodi ardal yn lleol a fyddai'n gwneud tirwedd ddynodedig dda, yn eu barn nhw, ac yn creu poster i ddweud wrth eraill am y dirwedd ddynodedig hon a pham y dylent ymweld â hi.

### CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Mynediad at gopi caled o fap o'r ardal leol o amgylch yr ysgol.
Dulliau o gymryd ffotograffau (e.e. ffôn clyfar, tabledi, camerâu ac ati).

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## BETH YW TIRWEDD?

Gwahoddwch y dysgwyr i dynnu llun neu greu braslun o'u hoff le yn yr awyr agored, e.e. traeth, parc, gardd, mynydd, fferm neu stryd, ac i ystyried pam maent yn hoffi'r lle hwn a beth y gallant ei synhwyro (ei weld, ei glywed, ei arogli) yno. Hefyd, anogwch nhw i feddwl sut mae'r lle hwn yn gwneud iddynt deimlo.

Dangosir ffotograffau o dirweddau Cymru i'r dysgwyr a gofynnir iddynt ddewis ffefryn a thrafod beth y gallent ei synhwyro yn y lle hwn. Defnyddir y ffotograffau hyn i annog y dysgwyr i archwilio eu syniadau ynghylch beth yw 'tirwedd' ac i gymharu eu syniadau nhw â diffiniad y National Geographic – Landscape (Saesneg yn unig).

TASG 2

## PAM Y BYDDEM AM WARCHOD TIRWEDDAU ARBENNIG?

Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl yn ôl at eu hoff le yn yr awyr agored ac ystyried pam y gallent fod eisiau gwarchod y dirwedd hon, ei gwarchod rhag beth fydden nhw'n ei wneud a sut y gallent wneud hynny. Gellid defnyddio map meddwl i gofnodi syniadau. Rhowch wybod i'r dysgwyr eu bod yn mynd i ddarganfod gwybodaeth am dirweddau arbennig yng Nghymru, gan ddechrau drwy ganfod beth maent eisoes yn ei wybod.

Eglurwch fod wyth tirwedd arbennig yng Nghymru sy'n cael eu galw'n dirweddau dynodedig. Mae tri o'r rhain yn 'Barciau Cenedlaethol' a phump ohonynt yn 'Dirweddau Cenedlaethol'. Gwahoddwch y dysgwyr i baru enwau'r tirweddau dynodedig â'u lleoliad ar fap o Gymru. Gofynnwch iddynt ddod o hyd i'r ysgol ar fap a defnyddio'r map i leoli'r dirwedd ddynodedig agosaf.

Eglurwch fod pobl a gwledydd ledled y byd yn gwarchod lleoedd arbennig, ac mai nad yng Nghymru'n unig y digwydd hyn. Dangoswch ffotograff o fewn y sgwâr ffynhonnell i'r dysgwyr, sy'n dangos Parc Cenedlaethol yn Zimbabwe. Gwahoddwch nhw i drafod y cwestiynau. Ar ôl defnyddio map i ddarganfod am rinweddau arbennig pob tirwedd ddynodedig yng Nghymru, anogwch y dysgwyr i restru'r rhinweddau arbennig sydd gan y Parc Cenedlaethol yn Zimbabwe, yn eu barn nhw, ac yna cymharu eu rhestr nhw gyda rhestrau eu cyfoedion.

TASG 3

## BLE FYDDECH CHI'N CREU TIRWEDD DDYNODEDIG?

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried beth fyddai'n gwneud tirwedd ddynodedig dda, yn eu barn nhw ac i egluro eu rhesymau. Ewch â nhw allan o amgylch yr ardal leol i nodi ardal i'w henwebu fel tirwedd ddynodedig dda a gofynnwch i'r dysgwyr ystyried beth sy'n gwneud y dirwedd hon yn arbennig, pam y maent eisiau ei gwarchod a sut y byddent yn cyflawni hynny.

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i greu poster i ddweud wrth eraill am eu tirwedd ddynodedig ac i'w hannog i ymweld â hi. Ewch â'r dysgwyr yn ôl allan i'r awyr agored i roi cyfleoedd iddynt gasglu gwybodaeth, cymryd ffotograffau, gwneud brasluniau, ac ati, i'w helpu i ddylunio'u poster. Gwahoddwch y dysgwyr i greu'r poster, ei rannu gyda grwpiau eraill, derbyn adborth ac ystyried beth aeth yn dda a beth y byddent yn ei newid y tro nesaf.

## Dolenni defnyddiol

Dyma rai dolenni a allai fod yn werth eu harchwilio wrth ymgysylltu â'r gweithgaredd hwn:

- MapDataCymru
- Tirweddau Cymru
- National Landscape Association (Saesneg yn unig)
- National Parks UK (Saesneg yn unig)
- Teaching Resources - National Parks UK (Saesneg yn unig)

Dyma rai dolenni a allai fod yn werth eu harchwilio ar gyfer pob Tirwedd Ddynodedig:

### Tirwedd Cenedlaethol Ynys Môn

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn - Cyngor Sir Ynys Môn

### Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

### Tirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Tirwedd Cenedlaethol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

### Parc Cenedlaethol Eryri

Parc Cenedlaethol Eryri

### Tirwedd Cenedlaethol Gŵyr

Tirwedd Genedlaethol Gŵyr - Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol - Cyngor Abertawe

### Tirwedd Cenedlaethol Llŷn

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn

### Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

### Tirwedd Cenedlaethol Dyffryn Gwy

Wye Valley National Landscape (Saesneg yn unig)

### Gweithgareddau defnyddiol eraill ar Tirlun

Gweithgaredd arall ar Tirlun sy'n ystyried Tirweddau Dynodedig yn gyffredinol yw:

- Beth yw Tirwedd Ddynodedig?

Yn ogystal, mae gweithgareddau ar Tirlun sy'n archwilio pob un o'r Tirweddau Dynodedig yn eu tro:

- Archwilio ein tirwedd ddynodedig leol – Tirwedd Cenedlaethol Ynys Môn
- Archwilio ein tirwedd ddynodedig leol – Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Archwilio ein tirwedd ddynodedig leol – Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- Archwilio ein tirwedd ddynodedig leol – Parc Cenedlaethol Eryri
- Archwilio ein tirwedd ddynodedig leol – Tirwedd Cenedlaethol Gŵyr
- Archwilio ein tirwedd ddynodedig leol – Tirwedd Cenedlaethol Llŷn
- Archwilio ein tirwedd ddynodedig leol – Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Archwilio ein tirwedd ddynodedig leol – Tirwedd Cenedlaethol Dyffryn Gwy